CYFRES B12

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd ar y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

DARLLENWCH
Luc 1: 26-38
Luc 2: 1-7

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 1: 35

Astudiaeth 1 Rhyfeddod y Nadolig – Mab a Anwyd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Eseia 7:14 a 9: 6 Ioan 1: 6-14 2 Corinthiaid 8: 9

Mae hanes y byd i gyd yn grwn yn gorffwys ar enedigaeth Iesu, Mab Duw. Mae gobaith pawb am gael mynd i'r Nefoedd yn dibynnu'n llwyr ar y digwyddiad hwn. Dyna pam roedd y neges a gyhoeddodd yr angel Gabriel yn un mor arbennig.



ACROSTIG Y NADOLIG

Mae'r atebion sydd eu hangen ar gyfer yr ACROSTIG hwn i'w gweld yn Luc 1: 26-38.

Ymwelodd yr angel â'r dref hon yng Ngalilea.	N _ _ _ _ _ _
'Ni bydd dim yn ..... gyda Duw'.	A _ _ _ _ _ _ _
Byddai'r Arglwydd yn rhoi gorsedd .....i'w Fab.	D _ _ _ _
Dywedodd yr angel wrth Mair am beidio ag	O _ _ _
"Dywedodd Mair, 'Dyma ..... yr Arglwydd."	L _ _ _ _ _ _ _ _
Dywedwyd wrth Mair am roi'r enw ..... ar y Baban.	I _ _ _
Hwn oedd Mab y	G _ _ _ _ _ _

9

Cyflawnwyd yr addewid hwn. Cafodd y neges a gyflwynodd yr angel Gabriel i Mair, ei chyflawni yn union fel y cafodd ei rhagfynegi. Rhaid bod pethau'n ddigon anodd ar Mair a Joseff bryd hyn. Mae'n debyg iawn iddyn nhw orfod wynebu perthnasau a ffrindiau nad oedd yn deall nac yn credu bod y Baban roedd Mair ar fin rhoi genedigaeth Iddo yn ffrwyth yr Ysbryd Glân, ac nid yn fab i unrhyw ddyn meidrol.

C **Esbonnir hyn yn yr Adnod Allweddol. Ysgrifennwch beth ddywedodd yr angel.**

2

Ar orchymyn yr Ymerawdwr Rhufeinig, bu'n rhaid i Mair a Joseff deithio tua'r de i dref arall, yn union cyn i'r Baban gael Ei eni.

Nodwch ar y map enwau'r lleoedd sy'n cael eu henwi yn yr ail Ddarlleniad o'r Beibl.





4

C **Llanwch "ADRODDIAD Y TREFNWR TEITHIAU".**

Memo

Rheswm dros Deithio.

Dan orchymyn .....
Rhaid i bawb .....

Pam Bethlehem?

Oherwydd roedd Joseff.....

Llety

Dim lle yn y .....
.....oedd crud y Baban.
Rhwymwyd y Baban mewn .....

3

C **Edrychwch ar 2 Corinthiaid 8: 9 ac ysgrifennwch yr adnod**

1

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, esboniwch sut y cafodd 2 Corinthiaid 8: 9 ei chyflawni yng ngenedigaeth Iesu.**

1

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 8-20

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Astudiaeth 2 Cyhoeddi Genedigaeth Gwaredwr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 14: 27 Rhufeiniaid 5: 1 Effesiaid 2: 17

Byddwn yn aml yn dweud wrth berthnasau a ffrindiau bod baban wedi ei eni drwy anfon cardiau sydd wedi'u hargraffu'n arbennig ar gyfer yr achlysur. Ond pan anwyd yr Arglwydd Iesu, cyhoeddwyd Ei enedigaeth mewn ffordd unigryw!



C Rhowch linell drwy'r geiriau anghywir er mwyn cwblhau'r brawddegau isod.

Pan oedd Duw eisiau dweud wrth y byd am enedigaeth Ei Fab ar y ddaear, anfonodd *frenhinoedd / angylion / offeiriaid.* Fe ddewison nhw ddweud wrth *fugeiliaid / dywysogion / gasglwyr trethi* oedd yn gofalu am eu *camelod / asynnod / defaid* yn y caeau. Roedd y dynion hyn yn *ofnus / hapus / drist* oherwydd roedd gweld angylion yn brofiad mor anarferol, ond roedd y newyddion roedden nhw ar fin ei glywed yn newyddion da iawn.

2

C Beth oedd y "newydd da am lawenydd mawr" yr oedd pawb i'w glywed?

1



Roedd gan y Baban a anwyd nifer o enwau a theitlau.

C Edrychwch ar yr adnodau canlynol i ddarganfod mwy am dri o'r enwau y soniodd yr angylion amdanynt.

GWAREDWR - Darllenwch Mathew 1: 21 ac ysgrifennwch pam fod 'Gwaredwr' yn enw addas iawn ar Ei gyfer.

2

CRIST - Ystyr 'Y Crist' yw 'Yr Un a anfonwyd'. Darllenwch Ioan 17: 3. Pwy anfonodd Crist?

2

ARGLWYDD (neu FEISTR) - Darllenwch Philipiaid 2: 9 i 11. Pwy fydd yn cyffesu bod Iesu yn Arglwydd?

2

Mae'r enwau a'r teitlau hyn yn ein helpu i gydnabod bod y Baban a anwyd y diwrnod hwnnw yn wahanol i bob un ohonom. Ydych chi'n sylweddoli bod Iesu wedi Ei anfon i fod yn Waredwr i chi? Ydych chi erioed wedi Ei gydnabod yn Arglwydd ar eich bywyd?

CHWILAIR

A	R	G	L	W	Y	DD	E	D
L	M	O	R	Y	E	R	T	I
S	D	G	O	B	G	E	N	A
DD	E	O	F	E	N	G	B	I
T	H	N	E	S	O	N	E	L
T	O	I	E	E	R	M	T	I
I	S	A	H	R	I	A	M	E
S	D	N	E	P	P	I	H	G
FF	S	T	Y	CH	LL	W	L	U
G	W	PH	N	FF	D	S	E	B

Edrychwch ar y cliwiau ac ysgrifennwch yr atebion isod ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. Maent wedi'u cuddio i fyny, i lawr, yn ôl a blaen.

1. Pwy ddaeth i weld y Baban newydd-anedig? _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

2. Ble welson nhw'r Baban?

_ _ _ _ _ _

3. Pwy fu'n myfyrio ar y pethau hyn?

_ _ _ _

4. " _ _ _ _ _ _ _ _ _ yn y Goruchaf" oedd geiriau'r angylion.

5. Aeth yr angylion yn ôl i'r _ _ _ _ _ _ _

6. Dywedodd y dynion eu bod wedi clywed y newyddion gan Yr "_ _ _ _ _ _ _ _" (ad. 15)

6

C **Llanwch y bylchau dan ddefnyddio a, e, i, o, u, w neu y er mwyn gweld beth ddywedodd y bugeiliaid.**

G_d_ _ch _nn_ f_nd _ F_thl_h_m _ g_ _ld _r h_n s_dd _ _d_ d_g_ _dd.

1

Yn y dyddiau hynny, doedd neb yn ystyried bugeiliaid yn bobl bwysig iawn. Eto i gyd, penderfynodd Duw gyhoeddi'r newyddion am enedigaeth yr Arglwydd Iesu wrthyn nhw!

Nhw gafodd y fraint o fod y cyntaf i glywed, ac yna i ddweud wrth eraill, am enedigaeth Iesu, Gwaredwr y byd.

C **Edrychwch ar 1 Corinthiaid 1:26 i 29 ac yna, YN EICH GEIRIAU EICH HUN, nodwch i ba fath bobl y mae Duw yn datguddio Ei hun.**

2

C **Edrychwch ar Luc 2: 18 ac YN EICH GEIRIAU EICH HUN nodwch sut yr ymatebodd eraill i newyddion y bugeiliaid.**

2

Os ydym ninnau, fel y bugeiliaid, wedi credu'r newyddion da, mae'n fraint i ninnau hefyd, ei rannu gyda phobl eraill.
Os ydych chi wedi credu mai Iesu yw'r Crist, ac os ydych wedi Ei gyffesu Ef yn Arglwydd ar eich bywyd, yna byddwch chithau hefyd yn awyddus i ddweud wrth eraill Amdano!

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-12

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Astudiaeth 3 Addoli Brenin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 60: 1-3 Salm 72: 10 ac 11 Datguddiad 5: 11 a 12

Pan fydd babi'n cael ei eni i deulu, mae pawb am gael gwybod pob dim amdano!

Sut mae'r fam?

Ai bachgen neu ferch yw'r babi?

Faint oedd pwysau'r babi?

Beth yw'r enw?

Roedd y Brenin Herod eisiau gwybod pob manylyn posibl gan y dynion hyn oedd yn sôn am Frenin newydd Ei eni.

C Atebwch y cwestiynau y byddai Herod, o bosibl, wedi eu gofyn.

Pwy yw'r dynion hyn? _____

O ble daethon nhw? _____

Gan beth y cawsant eu harwain mor bell? _____

Beth maen nhw'n awyddus i'w wneud ar ôl dod o hyd i'r Brenin newydd? _____

I ble dylen nhw fynd? _____

5

Dynion doeth oedd yn astudio'r sêr oedd y teithwyr hyn. Roedd eu gwaith ymchwil wedi dangos iddynt y byddai Brenin yn cael Ei eni. Roedden nhw'n meddwl mai mewn palas y câi'r Brenin hwn Ei eni. Dyna chi glamp o gamgymeriad!

C Disgrifiwch sut roedd Herod a gweddill trigolion Jerwsalem yn teimlo pan glywsant y newyddion.

_____

1



Yn wahanol i'r bugeiliaid, doedd y Brenin Herod ddim yn hapus o gwbl pan glywodd am enedigaeth yr Arglwydd Iesu. Credai, mae'n siŵr, y byddai'r 'Brenin newydd' hwn yn cipio'i orsedd. Felly, dechreuodd gynllwynio i gael gwared Arno! Gallwch ddarllen yn efengyl Mathew 2: 13-18 am yr hyn wnaeth y Brenin Herod i geisio lladd yr Arglwydd Iesu. Mae nifer heddiw hefyd yn gwrthod croesawu'r Arglwydd Iesu. Eto, mae Ef yn dal i ddymuno bod yn Frenin ar eich bywyd. Wnewch chi ganiatáu Iddo Ef reoli drosoch chi? Er bod yr Arglwydd Iesu dan ddwyflwydd oed, gwyddai'r doethion Ei fod yn blentyn arbennig. Roedden nhw'n Ei ystyried yn Frenin.

C Pan ddaethant o hyd i'r Arglwydd Iesu, pa dri pheth wnaethon nhw? (gweler adnod 11)

1 _____

2 _____

3 _____

3

C **Nawr ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

CROESAIR

Gosodwch eich atebion i'r cliwiau canlynol yn y Croesair.
Mae rhai llythrennau eisoes wedi eu cynnwys er mwyn eich helpu i osod y geiriau yn y blychau cywir.

1. Galwodd Herod am y rhain (dau air).
....
2. Arweiniwyd y doethion gan hon.....
.
3. Un o anrhegion y doethion.
..... .
4. Anrheg arall a roddwyd gan y doethion.
..... .

5. Ac un anrheg eto oddi wrth y doethion! ..... .

6. Teitl y person a ysgrifennodd adnod 6
(gweler adnod 5..... .



6

C **Edrychwch ar yr adnodau canlynol ac YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth allwch chi ei wneud i anrhydeddu'r Arglwydd Iesu, fel y gwnaeth y doethion.**

Ioan 6: 29

1

Ioan 13: 34

1

Ioan 14: 15

1

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 25-40

ADNOD ALLWEDDOL
Eseia 7:14

Astudiaeth 4 Rhyfeddod y Nadolig – Iachawdwriaeth!

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 40: 1-5 Hebreaid 2: 1-4 1 Pedr 1: 10-12

Mae digwyddiadau arbennig, fel gwyliau, y Nadolig a phenblwyddi, bob tro'n ymddangos yn bell, bell i ffwrdd wrth i ni feddwl amdanynt. "A ddaw'r adeg fyth?" gofynnwn. Wedi hir ddisgwyl, fe ddaw'r diwrnod mawr. Dyna gyffrous yw'r cyfan!
Roedd Simeon ac Anna wedi aros oes gyfan bron am achlysur arbennig roedden nhw'n gwybod fyddai'n digwydd, oherwydd roedden nhw wedi darllen amdano yn eu Hysgrythurau, yr Hen Destament. Gwyddent y byddai Duw yn cadw El addewid. Roedd yr Ysbryd Glân wedi dweud wrth Simeon na fyddai'n marw hyd nes y byddai wedi gweld y Crist.
(Enw arall am 'y Crist' yw'r 'Meseia').

C **Chwiliwch am un o addewidion yr Hen Destament y gwyddai Simeon amdano'n dda, mae'n siŵr. (Eseia 9:6) Yn y blychau, ysgrifennwch yr enwau, neu'r teitlau, oedd yn mynd i gael eu rhoi i'r Plentyn.**

5

Roedd yr Un y bu Simeon yn aros amdano wedi dod, y Meseia hir-ddisgwyliedig! Roedd Simeon wedi Ei weld â'i lygaid ei hun! Does dim rhyfedd iddo foli Duw.

C **Llanwch y manylion er mwyn llunio 'PROFFIL O SIMEON'**

PROFFIL O SIMEON

Ble'r oedd e'n byw?

Pa eiriau sy'n disgrifio ei gymeriad?

Beth barodd iddo fynd i Lys y Deml?

Pwy fuodd e'n dal yn ei freichiau?

Beth wnaeth e wedyn?

5

DRYSFA EIRIAU

Llanwch y geiriau sydd ar goll o weddi Simeon, yna rhowch gylch o gwmpas y geiriau hynny yn y DDRYSFA EIRIAU.

"Mae fy llygaid wedi gweld dy _____."

" _____ i fod yn _____ i'r Cenhedloedd."

"Yn _____i'th bobl Israel."

I	A	CH	A	W	D	W	R	I	A	E	TH
L	M	O	R	Y	E	R	T	N	E	T	A
S	LL	G	O	B	G	E	N	U	G	N	RH
O	E	O	F	E	N	G	B	E	N	B	L
T	H	N	O	S	LL	N	E	L	M	E	I
T	O	I	E	N	R	M	T	O	A	T	E
I	S	A	D	A	I	DD	U	G	T	A	DD
S	D	N	E	P	P	A	H	CH	W	H	G
FF	S	T	Y	CH	LL	W	N	L	S	L	U
G	W	PH	N	FF	D	S	E	T	LL	E	B

4

Nid Simeon oedd yr unig un oedd yn disgwyl yn eiddgar am y Meseia. Roedd Anna, y broffwydes, wedi bod yn gwasanaethu Duw am flynyddoedd lawer, ac roedd hithau hefyd yn llawen iawn pan welodd hi'r Arglwydd Iesu.

C **O ba lwyth roedd hi'n dod?**

C **Beth fyddai hi'n treulio'i hamser yn gwneud?**

C **Beth wnaeth hi pan welodd hi'r Plentyn?**

3

Gannoedd o flynyddoedd cyn geni'r Arglwydd Iesu, roedd Duw wedi addo y byddai'n anfon Gwaredwr. Bellach, roedd y Gwaredwr hwnnw wedi dod! Mae Duw bob tro'n cadw Ei addewidion.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a darllenwch Mathew 1: 22-23.**

3

Yn yr astudiaethau hyn, gwelsom nad oedd rhai pobl, fel y Brenin Herod, yn croesawu'r newyddion am eni'r Arglwydd Iesu. Ond, roedd y bugeiliaid, y doethion, Simeon ac Anna, heb sôn am Mair a Joseff yn gorfoleddu! Ydych chi'n llawenhau am Iddo gael Ei eni? Ydych chi wedi diolch Iddo am ddod i'r byd hwn ac wedi gofyn Iddo fod yn Waredwr i chi? Beth am wneud hynny y Nadolig hwn?

Nadolig Llawen iawn i Chi!

"Anfonodd y Tad Ei Fab yn Waredwr y byd."

1 Ioan 4: 14.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120